**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1036 (Cy. 67)

# TAI, CYMRU
# MEWNFUDO, CYMRU

## Gorchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo (Llety Awdurdodau Tai) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 118 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 ("Deddf 1999") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, na fydd tenantiaeth ar lety mewn tŷ sy'n cael ei ddarparu o dan Ran II o Ddeddf Tai 1985, heblaw llety sy'n cael ei ddyrannu o dan Ran VI o Ddeddf Tai 1996, na thrwydded i'w feddiannu, yn cael ei roi i berson sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo oni bai bod y person hwnnw yn perthyn i ddosbarth a bennir mewn gorchymyn a wneir, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu oni bai bod y denantiaeth, neu'r drwydded i feddiannu, yn cael ei roi yn unol â threfniadau a wneir o dan adran 95 o Ddeddf 1999.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer pennu'r dosbarthiadau o bersonau a bennir at ddibenion adran 118 o Ddeddf 1999 mewn perthynas â Lloegr gan Orchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Ymfudo (Llety Awdurdodau Tai a Digartrefedd) 2000 at y dibenion hynny mewn perthynas â Chymru hefyd.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1036 (W. 67)

# HOUSING, WALES
# IMMIGRATION, WALES

## The Persons Subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation) (Wales) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Order)*

Section 118 of the Immigration and Asylum Act 1999 ("the 1999 Act") requires a housing authority, so far as practicable, to secure that a tenancy of, or a licence to occupy, housing accommodation provided under Part II of the Housing Act 1985, other than accommodation allocated under Part VI of the Housing Act 1996, is not granted to a person subject to immigration control unless that person is of a class specified by an order made, in relation to Wales, by the National Assembly for Wales or the tenancy of, or the licence to occupy, such accommodation is granted in accordance with arrangements made under section 95 of the 1999 Act.

This Order provides for the classes of persons which are specified for the purposes of section 118 of the 1999 Act in relation to England by the Persons subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation and Homelessness) Order 2000 to be specified for such purposes in relation to Wales also.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1036 (Cy. 67)

# TAI, CYMRU
# MEWNFUDO, CYMRU

## Gorchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo (Llety Awdurdodau Tai) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 118 a 166(3) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999**(a)** ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru**(b)**.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo (Llety Awdurdodau Tai) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Llety awdurdodau tai**

**2.** Mae'r dosbarthiadau o bersonau a bennir yn Erthyglau 3 a 4 o Orchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Ymfudo (Llety Awdurdodau Tai a Digartrefedd) 2000**(c)** wedi'u pennu at ddibenion Adran 118(1) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 mewn perthynas â Chymru, ac mae i ymadroddion a ddefnyddir yn yr Erthyglau hynny yr ystyr a roddir iddynt gan Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwnnw.

(a) 1999 p. 33. Mae adrannau 118 a 119 yn ail-ddeddfu, gyda newidiadau, adran 9 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 (p. 49) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1996 (p.52), Atodlen 16, paragraff 3 ac Atodlen 19, Rhannau VII ac VIII.

(b) Mewn perthynas ag adran 9 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996, gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 17 o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30).

(c) O.S. 2000/706.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1036 (W. 67)

# HOUSING, WALES
# IMMIGRATION, WALES

## The Persons Subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation) (Wales) Order 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *30th March 2000* |
| *Coming into force* | *1st April 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 118 and 166(3) of the Immigration and Asylum Act 1999**(a)** which are vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales**(b)**.

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) This Order may be cited as the Persons Subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1st April 2000.

(2) This Order applies to Wales only.

**Housing authority accommodation**

**2.** The classes of persons specified in Articles 3 and 4 of the Persons subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation and Homelessness) Order 2000**(c)** are specified for the purposes of Section 118(1) of the Immigration and Asylum Act 1999 in relation to Wales and expressions used in those Articles have the meaning given to them by Article 2 of that Order.

(a) 1999 c. 33. Sections 118 and 119 re-enact, with modifications, section 9 of the Asylum and Immigration Act 1996 (c. 49) as amended by the Housing Act 1996 (c.52), Schedule 16, paragraph 3 and Schedule 19, Parts VII and VIII.

(b) See, in relation to section 9 of the Asylum and Immigration Act 1996, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and section 17 of the Interpretation Act 1978 (c. 30).

(c) S.I. 2000/706.

**Diddymiad**

**3.** Mae Gorchymyn Llety Tai (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) (Diwygio) (Cymru) 1999**(a)** wedi'i ddiddymu ac mae'r gorchmynion a bennir ym mharagraffau (a), (b) ac (c) o Erthygl 10 o Orchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Ymfudo (Llety Awdurdodau Tai a Digartrefedd) 2000 wedi'u diddymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(b)**.

30 Mawrth 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Revocation**

**3.** The Housing Accommodation (Persons Subject to Immigration Control) (Amendment) (Wales) Order 1999**(a)** is revoked and the orders specified in paragraphs (a), (b) and (c) of Article 10 of the Persons Subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation and Homelessness) Order 2000 are revoked in relation to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(b)**.

30th March 2000

*D. Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1999/3465 (Cy53).

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 1999/3465 (W53).

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2000 Rhif 1036 (Cy. 67)

## TAI, CYMRU
## MEWNFUDO, CYMRU

Gorchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo (Llety Awdurdodau Tai) (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2000 No. 1036 (W. 67)

## HOUSING, WALES
## IMMIGRATION, WALES

The Persons Subject to Immigration Control (Housing Authority Accommodation) (Wales) Order 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090061-8

9 780110 900612

**£1.50**

W06108 06/00 ON